

# WEDINOS:


# Philtre: Ebrill 2023 i Fawrth 2024



Diazepam



Cocên



MDMB-BUTINACA


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

# Prif Ffigurau

Cyfanswm hyd yma:

- 43,564 o samplau wedi'u derbyn
- 38,884 wedi'u dadansoddi
- 641 o sylweddau wedi'u nodi naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad.
- Dros 300 o sefydliadau a gwasanaethau
  - Roedd y rhain yn cynnwys: Adrannau Argyfwng, Timau Iechyd Lleol, Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, Tai a Digartrefedd, Canolfannau Addysg, Darparwyr Hyfforddiant, Lleoliadau yr Economi Liw Nos, Gwyliau, Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol a Charchardai Cymru
  - Darperir samplau hefyd gan unigolion nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau / nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau

Eleni (2023-2024):

- 8,466 o samplau wedi'u derbyn, sef cynnydd o 7,744 yn 2022/23.
- 7,064 wedi'u dadansoddi o 6,656
  - Samplau cymunedol wedi cynyddu i 5,793 o 4,979
- 206 o sylweddau wedi'u nodi o 185
- Samplau wedi'u derbyn gan 96 o sefydliadau, gwasanaethau a lleoliadau'r Economi Liw Nos gwahanol, yn ogystal â gan unigolion
- Oed canolrifol y rhai sy'n darparu samplau yw 34 oed (ystod rhwng 12 ac 80 oed)
- Yn yr un modd â'r chwe blynedd flaenorol, bensodiasepinau oedd y dosbarth o sylweddau seicoweithredol a nodwyd amlaf; nodwyd 19 ohonynt.
- Cocên oedd y sylwedd a nodwyd amlaf
- Y sylwedd a nodwyd amlaf yn y gymuned oedd diazepam, ac yna bromazolam
- Cocên oedd y sylwedd a nodwyd amlaf yn yr Economi Liw Nos
- Lleoliadau cyfiawnder troseddol - Gweithydd Derbynnydd Canabinoidau Synthetig (SCRA) MDMB-BUTINACA oedd y sylwedd a nodwyd amlaf

# Safbwynt ehangach....

## Amcangyfrifon byd-eang, Ewropeaidd, Cymru a Lloegr, a Chymru:

Mae Hydref 2023 yn nodi deng mlynedd ers lansio'r rhaglen WEDINOS, ynghyd â deng mlynedd ers derbyn, dadansoddi a chyhoeddi canlyniadau'r sampl gyntaf. Powdwr gwyn anhysbys oedd y sampl honno, a gyflwynwyd trwy un o'r gwasanaethau cyffuriau yn y gymuned. Yn dilyn dadansoddi'r sampl hon, oedd wedi achosi effeithiau annisgwyl sef trwyn yn gwaedu, iselder a syniadaeth hunanladdol, nodwyd y gwaith proffilo ei bod yn cynnwys para-cloroamffetamin, amffetamin, N-ethylnorketamine a benzocaine.

Ers hynny, mae WEDINOS wedi monitro tueddiadau cyffuriau ar draws y DU, wrth rannu gwybodaeth â phartneriaid rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, a derbyn gwybodaeth ganddynt. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod gwybodaeth lleihau niwed amserol a phragmatig yn parhau i gael ei darparu ar gyfer pobl sy'n defnyddio cyffuriau a'r rhai sy'n gweithio ym maes llesiant pobl sy'n defnyddio cyffuriau, neu sy'n bryderus am eu llesiant.

Mae WEDINOS yn bwydo data'r farchnad gyffuriau yn rheolaidd i gasgliad pellgyrhaeddol ac amrywiol o wasanaethau, o wasanaethau cyffuriau lleol i aelodau'r Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys yng Nghymru, i System Rhybuddion Cyffuriau Genedlaethol y DU a'r Cyngor Cynghorol ar Gamddefnyddio Cyffuriau; hefyd yn ehangach i'r prosiect Gwybodaeth am Gyffuriau Traws-Ewropeaidd a Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throsedd. Nid yw hon yn rhestr gyfyngedig; mae WEDINOS yn darparu gwybodaeth i nifer o sefydliadau eraill sy'n ymwneud â llesiant pobl sy'n defnyddio cyffuriau.

**Yn fyd-eang**, mae Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throsedd yn amcangyfrif bod nifer y bobl a ddefnyddiodd gyffuriau yn 2021 wedi cynyddu i tua 296 miliwn. Roedd bron i 1 o bob 13 o bobl 15-64 oed ledled y byd wedi defnyddio cyffuriau yn y flwyddyn honno ac roedd dros 1 o bob 100 ag anhwylder defnyddio cyffuriau. Amcangyfrifwyd bod 13.2 miliwn o bobl ledled y byd yn chwistrellu cyffuriau.

Amcangyfrifir bod 39.5 miliwn o bobl yn ddibynnol ar gyffuriau ac/neu angen gwasanaethau triniaeth, ond dim ond 1 o bob 5 o bobl ag anhwylderau defnyddio cyffuriau a gafodd driniaeth mewn perthynas â chyffuriau. Mae mwyafrif yr unigolion hyn yn bobl sy'n defnyddio canabis neu opioidau.

Amcangyfrifodd yr Astudiaeth Baich Byd-eang Clefydau y bu 494,000 o farwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau yn 2019. Cynnydd yw hyn o 17.5 y cant mewn marwolaethau a briodolwyd i gyffuriau rhwng 2009 a 2019 .

O blith y marwolaethau hynny, roedd 366,000 ohonynt yn gysylltiedig yn anuniongyrchol â defnyddio cyffuriau, e.e. clefyd yr afu oherwydd hepatitis, HIV a hunan-niweidio yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau.

Roedd marwolaethau a briodolwyd i anhwylderau defnyddio cyffuriau (128,000) yn gyfrifol am 26 y cant ac o'r rheiny, roedd anhwylderau defnyddio opioid yn cyfrannu at 69 y cant, neu 88,000 o farwolaethau.

Yn y **Deyrnas Unedig**, adroddodd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2023, fod tua 3.1 miliwn o bobl, neu 9.5 y cant o oedolion rhwng 16 a 59 oed, wedi cymryd cyffur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yn fwy cyffredin ymhlith pobl ifanc; roedd 17.6 y cant o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed wedi dweud eu bod wedi cymryd cyffur yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae hyn yn cynrychioli gostyngiad yn nifer y bobl ifanc a adroddodd eu bod wedi defnyddio unrhyw gyffuriau, sy'n bennaf oherwydd gostyngiad yn y defnydd o ganabis.

1) World Drug Report 2021 (cyhoeddiad gan y Cenhedloedd Unedig, Rhif Gwerthiant E.21.XI.8), https://www.unodc.org/res/wdr2021/field/WDR21_Booklet_2.pdf [cyrchwyd 2 Mai 2023]
2) Sefydliad Metrigau a Gwerthuso Iechyd, "Global Burden of Disease Study 2019 Data Resources: GBD Results Tools"
3) World Drug Report 2021 (cyhoeddiad gan y Cenhedloedd Unedig, Rhif Gwerthiant E.21.XI.8), https://www.unodc.org/res/wdr2021/field/WDR21_Booklet_2.pdf [cyrchwyd 2 Mai 2023]

# Safbwynt ehangach….parhau…

Canabis o hyd yw'r sylwedd a ddefnyddir amlaf yn y DU, ac mae hyn yn wir ers i gofnodion ddechrau yn 1995. Nid oedd unrhyw newid yn nifer yr achosion o ddefnyddio cocên yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, o'i chymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 (ffigurau cyn y pandemig). Fodd bynnag, bu gostyngiad yn y defnydd o MDMA, ochr yn ochr â chynnydd yn nifer yr unigolion a ddywedodd eu bod yn defnyddio rhithbeiriau(4).

**Darlun o Gymru**

Mae'r adran ganlynol yn defnyddio data o adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cloddio data Cymru: Y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2022-23

Mae prif ffigurau dros dro ar gyfer amcangyfrifon o lefelau defnyddio cyffuriau mewn ffordd broblemus yng Nghymru,** gan gynnwys poblogaethau nad ydynt mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau, yn awgrymu bod cyfanswm o 51,110 (cyfwng hyder o 95% (CI) 38,100 – 68,340) (5) o ddefnyddwyr cyffuriau problemus yn 2020-21.

Roedd 17,246 o asesiadau (15,215 o unigolion unigryw) mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghymru yn 2022-23, sy'n ostyngiad o 2.2 y cant o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol (17,644 o asesiadau). O'r unigolion a aseswyd:

- Roedd 7,532 (48.5 y cant) yn gleientiaid yr oedd alcohol yn brif broblem iddynt
- Roedd 6,883 (44.3 y cant) yn gleientiaid yr oedd cyffuriau yn brif broblem iddynt
- Nid oedd sylwedd wedi'i gofnodi ar gyfer 1,123 (7.2 y cant) o bobl (5)

Ymhlith asesiadau ar gyfer defnydd problemus o gyffuriau, nodwyd opioidau fel y prif sylwedd fwyaf aml, sef 3,505 o asesiadau (50.9 y cant). O'r rhain, nododd 2,784 o asesiadau mai'r prif sylwedd oedd heroin. Canabis oedd y sylwedd a adroddwyd amlaf wedi hynny, sef 1,650 o asesiadau (23.9 y cant). Cynyddodd nifer yr asesiadau oedd yn sôn mai cocên, gan gynnwys crac cocên, oedd y prif sylwedd i 1,621 yn 2022-23. Mae hyn yn gynnydd o 6.4 y cant ac yn cynrychioli 23.5 y cant o'r holl atgyfeiriadau at wasanaethau camddefnyddio sylweddau yn 2022-23 (5).

Yng Nghymru, yn gyffredinol, mae nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer gwenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon a enwyd wedi gostwng dros y pedair blynedd diwethaf i 4,342 yn 2022-23. Bu gostyngiad o 27.6 y cant mewn derbyniadau yn gysylltiedig â chyffuriau anghyfreithlon ers 2018-19. Opioidau oedd yn gyfrifol am y nifer uchaf o unigolion a dderbyniwyd i'r ysbyty ar gyfer cyffuriau anghyfreithlon, ac yna cannabinoidau (5) ***

Yn 2022, cofrestrwyd 318 o farwolaethau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau yng Nghymru, sef gostyngiad o 1.2 y cant ers y flwyddyn galendr flaenorol. O'r holl farwolaethau yn gysylltiedig â gwenwyno gan gyffuriau, nodwyd bod 205 (64.5 y cant) ohonynt yn farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau, sy'n parhau'n uchel gyda dim ond gostyngiad bach o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (5).

4) Drug misuse in England and Wales: year ending March 2023; y Swyddfa Ystadegau Gwladol; 14 Rhagfyr 2023; https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/drugmisuseinenglandandwales/yearendingmarch2023 {cyrchwyd 31 Mai 2024}
* Dylid ystyried hwn fel amcangyfrif lleiaf oherwydd tueddiadau adrodd.
** Yn y cyd-destun hwn, diffiniad y Ganolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop o ddefnydd problemus o gyffuriau yw "injecting drug use or long duration or regular use of opioids, cocaine and/or amphetamines [including amphetamine type substances]".
*** Mae'n bwysig nodi nad oes modd gwahaniaethu rhwng data derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer cynhyrchion canabinoid: resin canabis, straen cryfach o ganabis llysieuol 'skunk'; neu ffurfiau mwy newydd o Weithyddion Derbynyddion Canabinoidau Synthetig (SCRAs), y cyfeirir atynt weithiau fel 'Sbeis'
5) Data mining Wales: The annual profile for substance misuse 2022-23; Public Health Wales; 11th April 2024; https://publichealthwales.nhs.wales/news/latest-data-on-substance-misuse-in-wales-published/ {accessed 31st May 2024}
6) Drug misuse in England and Wales: year ending March 2023; Office for National Statistics; 14th December 2023; https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/drugmisuseinenglandandwales/yearendingmarch2023 {accessed 31st May 2024}

**WEDINOS**

**Samplau a Gyflwynwyd**

Derbyniodd a dadansoddodd WEDINOS 7,064 o samplau gan 96 o wasanaethau a lleoliadau ledled y DU, yn ogystal â gan unigolion. Gellir rhannu'r samplau hyn yn dri chategori eang:

- Cymunedol
- Yr Economi Liw Nos
- Lleoliadau Cyfiawnder Troseddol

Daw'r samplau a gyflwynir gan leoliadau'r economi liw nos a Lleoliadau Cyfiawnder Troseddol o finiau amnest neu maent yn rhai a ddarganfuwyd nad oes modd eu priodoli ac felly nid oes unrhyw wybodaeth am fwriad prynu, effeithiau na demograffeg i gyd-fynd â nhw.

**Canfyddiadau allweddol**

**Y sylweddau a nodwyd amlaf – Yr holl samplau**

Yn y 7,064 o samplau a ddadansoddwyd gan WEDINOS, cafodd 206 o sylweddau eu proffilio naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad.

Y **grŵp cemegol o sylweddau seicoweithredol a nodwyd amlaf** am y chweched flwyddyn oedd **bensodiasepinau**, a nodwyd 19 ohonynt (nodwyd 20 yn 2021/22). Fodd bynnag, nodwyd saith o'r sylweddau hyn ar ddeg achlysur neu lai.

Diazepam oedd yr ail sylwedd a nodwyd amlaf a'r bensodiasepin a nodwyd amlaf, sef 819 o weithiau (cynnydd o 593), er iddo gael ei nodi fel y sylwedd y bwriadwyd ei brynu ar 1,408 achlysur. Bromazolam oedd yr ail sylwedd bensodiasepin a nodwyd amlaf, sef sylwedd sydd 98 y cant o'r amser wedi'i nodi'n amnewidyn yn y farchnad bensodiasepin anghyfreithlon yn ôl gwaith proffilio. Cafodd ei nodi 715 o weithiau, ond dim ond 13 o weithiau y cafodd ei restru'n sylwedd y bwriadwyd ei brynu.

Mae Bromazolam yn gryfach na Diazepam. Mae hyn yn risg bosibl i unigolion sy'n defnyddio bensodiasepinau gan fod maint dosau a'u cryfder yn amrywio'n sylweddol.

**Cocên** oedd **y sylwedd seicoweithredol a nodwyd amlaf** gan WEDINOS. Mae hyn yn cael ei ddylanwadu'n fawr gan nifer y samplau o'r Economi Liw Nos, sy'n cyfrif am bron i 50 y cant o achosion o nodi cocên.

Nododd yr adroddiad diweddaraf a gyhoeddwyd ar Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr: Camddefnyddio Cyffuriau yng Nghymru a Lloegr nad oedd newid o ran y defnydd o gocên ymhlith oedolion rhwng 16 a 59 oed neu bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed y llynedd o'i chymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 (cyn y pandemig) (6).

Fodd bynnag, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi adrodd bod nifer yr asesiadau gan wasanaethau cyffuriau yng Nghymru sy'n sôn mai cocên, gan gynnwys crac cocên, yw'r prif sylwedd wedi cynyddu o 1,523 yn 2018-19 i 1,621 yn 2022-23. Mae hyn yn gynnydd o 6.4 y cant ac yn cynrychioli 23.5 y cant o'r holl atgyfeiriadau yn ymwneud â chyffuriau yn 2022-23 (7).

7) Drug misuse in England and Wales: year ending March 2023; y Swyddfa Ystadegau Gwladol; 14 Rhagfyr 202 https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/drugmisuseinenglandandwales/yearendingmarch2023 {cyrchwyd 31 Mai 2024}
8) Cloddio data Cymru: Y proffil blynyddol ar gyfer camddefnyddio sylweddau 2022-23; Iechyd Cyhoeddus Cymru; 11 Ebrill 2024; https://iechydcyhoedduscymru.nhs.cymru/newyddion/data-diweddaraf-ar-gamddefnyddio-sylweddau-yng-nghymru-cyhoeddwyd/ {cyrchwyd 31 Mai 2024}

# WEDINOS

Yn gyson â blynyddoedd blaenorol, caffein oedd y cyfrwng llenwi/torri mwyaf poblogaidd a nodwyd, yn ogystal â'i ganfod wedi'i gyfuno â sylweddau eraill, yn bennaf symbylyddion eraill, megis amffetamin, MDMA a chocên. Canfuwyd bod sawl sampl o bowdrau a thabledi yn cynnwys caffein ar ei ben ei hun, yn enwedig ymhlith samplau a gyflwynwyd fel MDMA.

| 2023/2024 | 2022/2023 |
|---|---|
| **Cocên** | Cocên |
| **Diazepam** | MDMA |
| **MDMA** | Bromazolam |
| **Bromazolam** | Diazepam |
| **Cetamin** | Cetamin |
| **Caffein** | Caffein |
| **Paracetamol** | Tetrahydrocannabinol |
| **Tetrahydrocannabinol** | Alprazolam |
| **Alprazolam** | Paracetamol |
| **Heroin** | Nicotin |

**Tabl 1: Y sylweddau seicoweithredol a nodwyd amlaf yn samplau WEDINOS.**

.

**Lleoliadau cymunedol**

Fel y soniwyd eisoes, mae WEDINOS yn cael samplau gan amrywiaeth eang o leoliadau cymunedol. Mae WEDINOS yn gweithio'n agos gyda chwe charchar yng Nghymru, gan adrodd ar wahân ar ganfyddiadau nad oes ganddynt werth tystiolaethol. Yn yr adran nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar samplau gan leoliadau cymunedol.


Cyflwynwyd 5,793 o samplau gan leoliadau cymunedol gan gynnwys lleoliadau addysg, iechyd (gan gynnwys Adrannau Achosion Brys), iechyd meddwl, tai a digartrefedd, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac unigolion.

O'r 5,793 o'r samplau hyn, roedd gwybodaeth ddemograffig ar gael ar gyfer 96 y cant (n=5,544).

Lle'r oedd data demograffig ar gael cyflwynwyd 80 y cant o'r samplau gan ddynion ac 20 y cant gan fenywod. Mae hyn yn debyg i'r rhaniad rhyw ymhlith y rhai a ddarparodd samplau yn 2022-23 (79 y cant yn ddynion a 21 y cant yn fenywod).

Oedran canolrifol y rhai a ddarparodd yr holl samplau seicoweithredol (Cymru a'r DU yn ehangach) oedd 34 oed, ystod oedran o 12 i 80 oed, o'u cymharu â 33 oed ac ystod oedran o 12 i 80 oed yn 2022-2023.

- Menywod - yr oedran canolrifol oedd 33 oed (34 oed yn 2022-2023) (ystod: 12-80 oed)
- Dynion - yr oedran canolrifol oedd 34 oed (33 oed yn 2022-2023) (ystod: 13-77 oed)




**Siart 1: Proffil demograffig y rhai a ddarparodd samplau seicoweithredol**

**Dadansoddiad Samplau Cymunedol**

Ers lansio WEDINOS yn 2013, mae'r prosiect wedi dangos yn gyson bod sylweddau'n cael eu hamnewid ym marchnad gyffuriau anghyfreithlon y DU.

O'r 5,793 o samplau a gyflwynwyd gan y rhai a ddarparodd samplau yn y gymuned, cafodd 202 o sylweddau eu proffilio naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad.

Mae Tabl 2 yn dangos y newidiadau yn y "deg sylwedd mwyaf cyffredin" ar y cam cyflwyno (bwriad prynu) a'r cam ar ôl dadansoddi.

Mae'r samplau a restrir fel rhai anhysbys yn cynnwys samplau a gyflwynwyd dan enw nad yw'n galluogi i'r sylwedd neu gategori sylwedd gael ei adnabod, samplau a ganfuwyd neu samplau anhysbys; fel y rhai a gyflwynwyd gan gleifion ag effeithiau acíwt mewn lleoliad iechyd, megis adran achosion brys neu ward iechyd meddwl.

| Nifer | Bwriad prynu | Ar ôl dadansoddi |
|---|---|---|
| 1 | Diazepam | Diazepam |
| 2 | MDMA | Bromazolam |
| 3 | Cocên | MDMA |
| 4 | Alprazolam | Cocên |
| 5 | Anhysbys | Caffein |
| 6 | Cetamin | Cetamin |
| 7 | THC | Pregabalin |
| 8 | Amffetamin | Paracetamol |
| 9 | Heroin | Alprazolam |
| 10 | Zopiclone | Amffetamin |

Tabl 2 Y sylweddau mwyaf cyffredin cyn (ymddangosiadol) ac ar ôl (gwirioneddol) dadansoddi


Mae Tabl 2 yn dangos newidiadau rhwng y sylweddau a nodwyd amlaf cyn eu dadansoddi a'r sylweddau a nodwyd amlaf ar ôl eu dadansoddi.

Fel yn 2022-23, nid yw bromazolam yn bresennol ar y rhestr cyn dadansoddi/bwriad prynu. Fodd bynnag, hwn yw'r ail sylwedd mwyaf cyffredin a nodwyd yn gyffredinol. Dim ond 13 o weithiau y rhestrwyd bromazolam yn y bwriad prynu cyn y gwaith dadansoddi. Ar ôl y gwaith dadansoddi, nodwyd y sylwedd hwn 715 o weithiau.

Gellid dadlau mai presenoldeb uchel sylweddau “anhysbys” cyn y gwaith dadansoddi fyddai’n cael y dylanwad mwyaf ar y newid hwn. Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl tynnu’r samplau hyn, gwelwn nad oedd 42 y cant o’r samplau dros y flwyddyn ddiwethaf a gyflwynwyd i WEDINOS â sylwedd wedi’i restru yn y bwriad prynu yn cynnwys yr hyn wedi’i ddisgwyl>Mae hyn yn uwch na 2022-23 (39 y cant).

Roedd rhai o’r samplau yn cynnwys y sylwedd y bwriadwyd ei brynu a sylweddau eraill; megis sampl a brynwyd fel heroin y canfuwyd ei bod yn cynnwys heroin a xylazine ar ôl ei dadansoddi. Roedd samplau eraill yn cynnwys sylwedd neu sylweddau gwahanol; er enghraifft sampl a brynwyd fel diazepam, a oedd yn cynnwys bromazolam a metonitazene.

- Dangosir lefelau’r sylweddau ychwanegol a’r amnewidion yng Ngraff 1.





**Graff 1 Lefelau amnewid ac amhuro ymhlith samplau a gyflwynwyd i WEDINOS Ebrill 2023–Mawrth 2024**

**Mathau o Samplau Cymunedol**

**Ffurf y sampl**

Mae WEDINOS yn gofyn beth yw 'ffurf pob sampl' a gyflwynir er mwyn monitro ac adrodd ar ffurfiau amrywiol sylweddau ar y farchnad a gwahaniaethau posibl o ran sut y cânt eu defnyddio.





**Siart 2: Ffurfiau samplau sylweddau seicoweithredol a gyflwynwyd i WEDINOS Ebrill 2023 i Fawrth 2024**

Fel yn y tair blynedd flaenorol, gwelwyd nifer uchel o dabledi wedi'u cyflwyno. Adlewyrchir hyn yn nifer uchel y samplau a gyflwynwyd y credwyd mai diazepam ac alprazolam oeddent.

**Dull defnyddio a chyngor ar leihau niwed**

Gan dybio y caiff yr holl sylweddau deunydd planhigion eu hysmygu a hylifau fepio eu hysmygu/fepio, cafodd y samplau sy'n weddill (tabledi, hylifau, tabiau, gronynnau ac ati) eu defnyddio mewn amrywiaeth o ffyrdd. Y dull mwyaf cyffredin (71.5 y cant) oedd drwy'r geg (llyncu, 'bomio'). Mae'n debygol bod cyffredinrwydd uchel y dull drwy'r geg yn gysylltiedig â nifer uchel y cyflwyniadau a brynwyd fel bensodiasepinau, yn enwedig diazepam neu alprazolam, yn ogystal â nifer y cyflwyniadau ar gyfer zopiclone a chyffredinrwydd uchel o dabledi MDMA (n=232).

Yr ail ddull defnyddio mwyaf cyffredin oedd ffroeni/sniffian, sef 18.2 y cant, fel y dangosir yn Siart 3.




**Siart 3: Dull defnyddio (samplau wedi'u cyflwyno fel tabled, powdr, deunydd crisialaidd, capsiwl, solid, gronynnau, papur blotio) Ebrill 2023 i Fawrth 2024**

Dywedodd 3.5 y cant o'r rhai a ddarparodd sampl eu bod wedi chwistrellu sylweddau drwy wythïen. Cynnydd yw hyn o 1.3 y cant yn 2022-23.


Cafodd samplau a chwistrellwyd eu prynu fel heroin, cocên, amffetamin, cetamin, nitazenes a xylazine, a gwelwyd eu bod yn cynnwys y rhain hefyd.

# WEDINOS

**Dull defnyddio a chyngor ar leihau niwed**


Mae risgiau cynhenid o ddatblygu haint bacterol a feirysol yn gysylltiedig â defnyddio cyffuriau drwy eu chwistrellu, ac mae’r risgiau hyn yn fwy difrifol na risgiau/gwenwyndra'r sylwedd sy’n cael ei chwistrellu.

Mae risg sylweddol o ddatblygu haint difrifol a goblygiadau eraill yn gysylltiedig â chwistrellu, ni waeth beth fo’r sylwedd. Dylai unigolion sy’n chwistrellu cyffuriau ar hyn o bryd neu sydd wedi chwistrellu yn y gorffennol gael eu profi ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed.




- **Powdrau, gronynnau a deunyddiau crisialaidd**

Gan ganolbwyntio ar y dull defnyddio ar gyfer powdrau, gronynnau a deunyddiau crisialaidd, y dull defnyddio mwyaf cyffredin oedd ffroeni/sniffian gyda 48.6 y cant yn nodi’r dull hwn, fel y dangosir yn Siart 4. Adroddwyd bod nifer cynyddol o samplau o'r ffurfiau hyn wedi'u chwistrellu'n drwy wythïen. Gellir priodoli hyn i nifer uwch o samplau o heroin a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, yn enwedig rhwng Tachwedd 2023 a Chwefror 2024. Yn ystod y cyfnod hwnnw roedd clystyrau o achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau ymhlith pobl sy’n defnyddio heroin. Pan mae lefel gynyddol o bryder, rydym yn aml yn gweld cynnydd yn nifer y samplau a gyflwynir gan y boblogaeth yr effeithir arni.




**Siart 4: Dull defnyddio: Powdrau**

Mae risgiau ychwanegol yn gysylltiedig â ffroeni/sniffian sylweddau a all fod yn gostig neu’n wenwynig sy’n ymwneud â niwed i lwybrau aer y trwyn yn ogystal â’r posibilrwydd o drosglwyddo haint feirysau a gludir yn y gwaed wrth rannu teclynnau ffroeni pan fydd yno niwed i lwybrau aer y trwyn a gwaed.



# Bensodiasepinau




Am y chweched flwyddyn yn olynol, bensodiasepinau oedd y dosbarth o sylweddau a nodwyd amlaf ymhlith yr holl samplau a gyflwynwyd i WEDINOS.

Diazepam oedd y bwriad prynu a adroddwyd amlaf ymhlith samplau a gyflwynwyd gan y gymuned, a bensodiasepin arall, alprazolam, oedd y pedwerydd sylwedd y bwriadwyd ei brynu mwyaf cyffredin.

Ar ôl gwaith proffilio a dadansoddi'r bensodiasepin, diazepam oedd y sylwedd a nodwyd amlaf ymhlith samplau cymunedol. Bromazolam oedd yr ail sylwedd a nodwyd amlaf, ac alprazolam oedd y nawfed.

**Beth yw bensodiasepinau?**

Mae bensodiasepinau yn ddosbarth o lonyddwyr. Mae'r rhain yn gweithio trwy gynyddu effeithiau cemegyn sy'n cael ei greu yn naturiol yn yr ymennydd, asid gama-aminobwtyrig (GABA).

Mae GABA yn lleihau gweithgaredd yn y rhan o'r ymennydd sy'n gyfrifol am:

- ymresymu
- cof
- emosiynau
- swyddogaethau hanfodol, fel anadlu.

O ganlyniad, gall bensodiasepinau wneud i bobl deimlo'n gysglyd ac wedi ymlacio (effeithiau llonyddol), lleihau gorbryder ac ymlacio cyhyrau.

Nifer yr achosion (marchnadoedd cyfreithlon ac anghyfreithlon)

Mae bensodiasepinau, a ddefnyddir fel meddyginiaethau, yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau fferyllol trwyddedig a'u hawdurdodi yn unol â deddfwriaeth genedlaethol. Yn y DU, rheolir bensodiasepinau o dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 a Deddf Sylweddau Seicoweithredol 2016. Os cânt eu defnyddio fel meddyginiaeth, maent ar gael ar bresgripsiwn yn unig.

Os cânt eu rhagnodi, argymhellir eu defnyddio yn y tymor byr ar y dos isaf posibl. Mae hyn er mwyn lleihau risgiau symptomau goddefiad, dibyniaeth a diddyfnu.

Mae GIG Lloegr yn nodi bod 1.1 miliwn o oedolion yn Lloegr wedi cael un presgripsiwn neu fwy ar gyfer bensodiasepinau yn 2020-21, sef gostyngiad o 1.4 miliwn yn 2017-18 (9). Y bensodiasepin a ragnodir amlaf yw diazepam.

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr yn adrodd ar y defnydd o dawelyddion, grŵp o sylweddau sy'n cynnwys barbitwradau a bensodiasepinau. Amcangyfrifir bod 0.5 y cant o oedolion yng Nghymru a Lloegr rhwng 16 a 59 oed wedi defnyddio tawelyddion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hyd at fis Mawrth 2023. Roedd hyn yn cymharu â 0.9 y cant o unigolion rhwng 16 a 24 oed (10).

9) Optimising personalised care for adults prescribed medicines associated with dependence or withdrawal symptoms: Framework for action for integrated care boards (ICBs) and primary care, GIG Lloegr; 2 Mawrth 2023; https://www.england.nhs.uk/long-read/optimising-personalised-care-for-adults-prescribed-medicines-associated-with-dependence-or-withdrawal-symptoms/#appendix-prescribing-patterns {cyrchwyd 2 Mehefin 2024}
10) Drug misuse in England and Wales: year ending March 2023; y Swyddfa Ystadegau Gwladol; 14 Rhagfyr 2023; https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/drugmisuseinenglandandwales/yearendingmarch2023 {cyrchwyd 31 Mai 2024}

# Bensodiasepinau

**Marwolaethau yn gysylltiedig â bensodiasepin**

Nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod 509 o farwolaethau yn gysylltiedig â bensodiasepinau yng Nghymru a Lloegr yn 2022 (11).

Mae Cyngor Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop yn nodi bod y dystiolaeth gyfredol sydd ar gael yn ddigonol i ddangos y gallai'r sylweddau hyn gael effeithiau gwael ar iechyd, yn enwedig wrth eu defnyddio ar y cyd â chyffuriau eraill. Maent yn aml yn rhad iawn a gellir eu defnyddio ar y cyd ag alcohol, gan arwain weithiau at adweithiau iechyd difrifol neu ymddygiad annodweddiadol. Maent hefyd wedi'u cysylltu â chynydd yn y risg o farwolaeth o ganlyniad i orddos yn ymwneud ag opioid ac, yn y data mwyaf diweddar, cynyddodd cyfran y marwolaethau o ganlyniad i orddos yn gysylltiedig â bensodiasepinau mewn rhai gwledydd (12).

Fodd bynnag, nid yw'r risg uwch o effeithiau andwyol yn ymwneud â’r defnydd

o amryw o gyffuriau yn unig. Fel y mae WEDINOS wedi'i ddangos dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer yr amnewidion yn y farchnad bensodiasepin anghyfreithlon yn parhau i fod yn uchel. Mae’r Cyngor Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop yn nodi pryderon ynghylch y gorgyffwrdd cynyddol rhwng y farchnad cyffuriau anghyfreithlon a'r farchnad sylweddau seicoweithredol newydd. Yn yr adran hon, byddwn yn disgrifio'r gorgyffwrdd hwn mewn perthynas â samplau a gyflwynwyd i WEDINOS fel diazepam (Valium). Ar ôl eu dadansoddi, canfuwyd eu bod yn cynnwys sylweddau eraill, sef bensodiasepinau newydd/bensodiasepinau labordy. Yn aml, gall y sylweddau

**Marwolaethau yn gysylltiedig â bensodiasepin**

Nododd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod 509 o farwolaethau yn gysylltiedig â bensodiasepinau yng Nghymru a Lloegr yn 2022 (13).

Mae Cyngor Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop yn nodi bod y dystiolaeth gyfredol sydd ar gael yn ddigonol i ddangos y gallai'r sylweddau hyn gael effeithiau gwael ar iechyd, yn enwedig wrth eu defnyddio ar y cyd â chyffuriau eraill. Maent yn aml yn rhad iawn a gellir eu defnyddio ar y cyd ag alcohol, gan arwain weithiau at adweithiau iechyd difrifol neu ymddygiad annodweddiadol. Maent hefyd wedi'u cysylltu â chynydd yn y risg o farwolaeth o ganlyniad i orddos yn ymwneud ag opioid ac, yn y data mwyaf diweddar, cynyddodd cyfran y marwolaethau o ganlyniad i orddos yn gysylltiedig â bensodiasepinau mewn rhai gwledydd (14).

11) Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), rhyddhawyd ar 19 Rhagfyr 2023, gwefan SYG, bwletin ystadegol, Deaths related to drug poisoning in England and Wales: 2022 registrations; https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsrelatedtodrugpoisoninginenglandandwales/2022registrations#cite-this-statistical-bulletin {cyrchwyd 2 Mehefin 2024}
12) Benzodiazepine equivalence table; https://www.benzo.org.uk/bzequiv.htm [accessed 4th Mai 2023]
13) Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), rhyddhawyd ar 19 Rhagfyr 2023, gwefan SYG, bwletin ystadegol, Deaths related to drug poisoning in England and Wales: 2022 registrations; https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/deaths/bulletins/deathsrelatedtodrugpoisoninginenglandandwales/2022registrations#cite-this-statistical-bulletin {cyrchwyd 2 Mehefin 2024}
14) Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (2023), European Drug Report 2023: Trends and Developments, https://www.emcdda.europa.eu/publications/european-drug-report/2023/drug-situation-in-europe-up-to-2023_en {cyrchwyd 2 Mehefin 2024}

# Bensodiasepinau

Fodd bynnag, nid yw'r risg uwch o effeithiau andwyol yn ymwneud â’r defnydd

o amryw o gyffuriau yn unig. Fel y mae WEDINOS wedi'i ddangos dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer yr amnewidion yn y farchnad bensodiasepin anghyfreithlon yn parhau i fod yn uchel. Mae’r Cyngor Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop yn nodi pryderon ynghylch y gorgyffwrdd cynyddol rhwng y farchnad cyffuriau anghyfreithlon a'r farchnad sylweddau seicoweithredol newydd. Yn yr adran hon, byddwn yn disgrifio'r gorgyffwrdd hwn mewn perthynas â samplau a gyflwynwyd i WEDINOS fel diazepam (Valium). Ar ôl eu dadansoddi, canfuwyd eu bod yn cynnwys sylweddau eraill, sef bensodiasepinau newydd/bensodiasepinau labordy. Yn aml, gall y sylweddau hyn fod yn gryfach na'r rhai y maent yn eu disodli, maent yn wahanol o ran pryd y bydd yr effeithiau yn dechrau, ac am ba hyd y byddant yn para, ac felly gallant achosi risg uwch o effeithiau andwyol.

**Bensodiasepinau…Y Sefyllfa yng Nghymru**

Yn 2022-23, roedd 378 o dderbyniadau yn gysylltiedig â bensodiasepinau a oedd yn ymwneud â 329 o unigolion. Y Gyfradd Ewropeaidd wedi’i Safoni yn ôl Oedran oedd 12.6 o dderbyniadau fesul 100,000 o’r boblogaeth. O'i gymharu â'r llynedd bu gostyngiad o 25.6 y cant yn nifer y derbyniadau yn gysylltiedig â bensodiasepinau.


Yn 2022, roedd 53 o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau yn ymwneud â bensodiasepinau, gostyngiad o 61 y flwyddyn flaenorol, ond yn uwch na’r 35 o farwolaethau yn 2020.

**Amnewidion**

Yn ystod cyfnod adrodd 2023-24, cyflwynwyd 1,408 o samplau i WEDINOS a’r gred oedd mai diazepam oeddent. Pan ddadansoddwyd y samplau hyn, nodwyd 40 o sylweddau, naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad. Yn ôl gwaith proffilio, cafodd 34 o samplau eu nodi’n rhai nad oeddent yn cynnwys unrhyw gyfansoddion gweithredol.

Er mai diazepam (ar ei ben ei hun) oedd y cyffur y bwriadwyd ei brynu, yn dilyn gwaith proffilio a dadansoddi, nodwyd mai dyna oedd cynnwys y sampl yn 52 y cant (n=745) o’r cyflwyniadau, gan olygu bod y gyfradd amnewid yn 48 y cant. Mae hyn yn ostyngiad yn y lefel amnewid o’i chymharu â 2022-23, sef 55 y cant.


Drwy gydol y flwyddyn, roedd ystod yr amnewidion ymhlith samplau a gyflwynwyd fel diazepam rhwng 39 y cant (Ionawr 2024) a 55 y cant (Mai 2023).




**Graff 2 Canran y samplau a gyflwynwyd fel diazepam a gafodd eu nodi’n rhai oedd yn cynnwys sylweddau eraill ar ôl eu proffilio a’u dadansoddi**

# Bensodiasepinau

Yr amnewidyn a nodwyd amlaf oedd y triazolobenzodiazepine, bromazolam. Nodwyd bromazolam mewn 34 y cant (n=482) o'r samplau a gyflwynwyd fel diazepam. Testun pryder oedd y ffaith bod ychydig dros 5 y cant (n=75) o'r holl samplau a gyflwynwyd fel diazepam yn cynnwys metonitazene, naill ai mewn cyfuniad â bromazolam (n=68) neu ar wahân (n=7).




**Siart 5: Sylweddau a nodwyd mewn samplau a brynwyd fel diazepam ar ôl gwaith dadansoddi**

# Bensodiasepinau

**Bromazolam**

Mae bromazolam yn sylwedd riazolobenzodiazepine, sy'n gysylltiedig yn strwythurol ag alprazolam. Cafodd ei ddatblygu'n wreiddiol fel meddyginiaeth bosibl, ond ni chafodd ei gymeradwyo i'w ddefnyddio. Ar hyn o bryd, ychydig o lenyddiaeth wyddonol sydd ar gael yn ymwneud â bromazolam.

Dogn "cyffredin" o bromazolam a gymerir drwy'r geg, fel y disgrifir gan ddefnyddwyr y sylwedd, yw 1 i 3mg.(15). Mae'r effeithiau'n dechrau ar ôl rhwng 15 a 45 munud, ac maent yn para rhwng 5 ac 8 awr.

Mae effeithiau hunan-gofnodedig defnyddio bromazolam yn cynnwys hypnotig, llonyddwr, ymlacio cyhyrau, lleddfu poen, ewfforia, mwy o hyder, empathi ac amnesia.(16).

Yn y Deyrnas Unedig, rheolir bromazolam o dan Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol 2016.

**W051389**

Date Received: 30 Apr 2024
Postcode: S8 -
Purchase Intent: Diazepam
Package Label: Bensedin (Diazepam)
Sample Colour: White, Purple
Sample Form: Tablet
Consumption Method: Not Stated
Self-Reported Effects: Not Stated
Sample Upon Analysis (Major): Bromazolam, Metonitazene
Sample Upon Analysis (Minor):



Click to Enlarge

www.wedinos.org

Nid oes data ar gael ar ddibyniaeth a chamddefnydd posibl mewn perthynas â bromazolam. Fodd bynnag, gellir tybio bod yr atebolrwydd o ran camddefnyddio a'r potensial i greu dibyniaeth yn debyg i rai bensodiasepinau eraill sy'n gysylltiedig â chemegau, megis alprazolam.

Mae cyflwyno samplau'n uniongyrchol i WEDINOS yn caniatáu i dystiolaeth gael ei chasglu yn seiliedig ar ddata tueddiadau'r farchnad gyffuriau leol a chenedlaethol, gan alluogi gwasanaethau cyffuriau i ddarparu gwybodaeth ymarferol am amnewidion a niweidiau perthnasol cyffuriau. Drwy gyfuno hyn â ffynonellau data eraill, megis data am dderbyniadau i'r ysbyty,

tocsicoleg a marwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau, gall gwasanaethau ddarparu gwybodaeth wedi'i thargedu am sylweddau a gwrtharwyddion penodol. Yn yr achos hwn, mae hyn wedi golygu mynd i'r afael â'r defnydd o amryw o gyffuriau, gan gynnwys "diazepam" a brynir ar y stryd.

15) Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (2021), New benzodiazepines in Europe – a review, Swyddfa Cyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, Lwcsembwrg.
16) Sefydliad Iechyd y Byd, Critical review report: Bromazolam, Expert Committee on Drug Dependence, Forty-fifth Meeting, Geneva, 10–14 October 2022; https://cdn.who.int/media/docs/default-source/controlled-substances/45th-ecdd/bromazolam_draft.pdf?sfvrsn=f1bc761e_1#:~:text=Informational%20websites%20for%20users%20list%20a % 20 dos% 20 amrediad, a% 20 y% 20hyd% 20 o% 20 gweithred% 20 yw% 205% E2% 80% 938% 20h. [cyrchwyd ar 4 Mai 2023]

# Benzodiazepines

**Nitazenes a nodwyd o fewn y farchnad diazepam anghyfreithlon**

Mewn ymateb i'r ffaith bod WEDINOS wedi nodi metonitazene mewn samplau a gyflwynwyd fel diazepam, ymgymerodd Iechyd Cyhoeddus Cymru â dull cyfathrebu rhagweithiol. Ymgysylltodd â'r cyfryngau cenedlaethol gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r amnewid hwn a'r risgiau iechyd posibl i ddefnyddwyr bensodiasepinau a fyddai fel arall ddim yn gwybod amdanynt oherwydd nad ydynt wedi ymgysylltu â gwasanaethau. Roedd y cyfathrebu rhagweithiol hwn hefyd yn cynnwys canllawiau ar nalocson (y gwrthwenwyn ar gyfer opioid) a sut i'w gael yng Nghymru. Cafodd y daflen wybodaeth ganlynol hefyd ei pharatoi a'i rhannu ymhlith yr holl randdeiliaid yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys system rhybuddion cyffuriau'r DU.

WEDINOS — Collecting • Testing • Informing

## Are you getting what you think you're getting?

Over the past several years WEDINOS has been reporting on and highlighting concerns relating to *substitutions within the illicit benzodiazepine* market.

Primarily, these substitutions have involved other, albeit more potent, benzodiazepines.

Since, September 2023, WEDINOS has seen an increase in the number of samples submitted as *benzodiazepines*, particularly diazepam, that have been profiled as containing a *nitazene*, and on occasion another benzodiazepine, but *no diazepam*.





Since September 2023, 25 samples, from across the United Kingdom, submitted in the belief, they were **diazepam**, were profiled following analysis as containing the nitazene, **metonitazene** (Sept =8, Oct=12, Nov=5), and on 23 of those occasions, this was identified alongside the benzodiazepine, **bromazolam**.

**Nitazenes** were originally developed in the 1950s as analgesics. Found to have potent analgesic effects, the clinical development of nitazenes was abandoned due to the increased risks of adverse events. Currently, there are no drugs of this class approved as human or veterinary medicines.

**Metonitazene** is a high potency synthetic opioid that exceeds the potency of fentanyl and morphine.

**Benzodiazepines** are a class of sedative substances. These work by increasing the effects of a naturally occurring chemical in the brain gamma aminobutyric acid (GABA). Where prescribed, they are recommended for short-term use at the lowest possible dose. This is to reduce the risks of tolerance, dependence and withdrawal symptoms

**Bromazolam** is a triazolobenzodiazepine, structurally related to alprazolam. Originally developed as a candidate medicine, it was never approved for use. There is currently little scientific literature available relating to bromazolam. A "common" oral dose of bromazolam, as described by users of the substance, is 1 to 3mg. The onset of effects is between 15 and 45 minutes, with a duration of action of 5 to 8 hours

**With the emergence of nitazenes within the illicit benzodiazepine market, we recommend, individuals who are consuming unprescribed benzodiazepines, speak to their local drug treatment service about Naloxone (often described as the opioid antidote) or visit DAN 24/7 and see their click and collect service (for those living in Wales) https://dan247.org.uk/naloxone-click-and-deliver/**


**11/12/2023**

# Nitazenes

**Nitazenes – Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, canfuwyd bod 138 o samplau yn cynnwys nitazenes.**

**W049484**

Date Received: 20 Mar 2024
Postcode: EH32 -
Purchase Intent: Heroin
Package Label: Heroin
Sample Colour: Brown
Sample Form: Solid
Consumption Method: Intravenous
Self-Reported Effects: Relaxed, Memory Loss, Loss of consciousness
Sample Upon Analysis (Major): xylazine, Paracetamol, Noscapine, Caffeine, 6-MAM
Sample Upon Analysis (Minor): Metonitazene, Heroin, Papaverine




Click to Enlarge

**W049446**

Date Received: 15 Mar 2024
Postcode: M20 -
Purchase Intent: Diazepam
Package Label: Accord Diazepam
Sample Colour: Blue
Sample Form: Tablet
Consumption Method: Oral
Self-Reported Effects: Enhanced Senses, Relaxed, Nausea, Memory Loss, Loss of consciousness, Tiredness
Sample Upon Analysis (Major): Metonitazene, Bromazolam
Sample Upon Analysis (Minor):



Click to Enlarge

## Beth yw nitazenes?

Datblygwyd opioidau 2-Benzyl benzimidazole (nitazene) yn wreiddiol yn y 1950au fel cyffuriau lladd poen. Dangoswyd bod gan sawl un effeithiau opioid cryf, ond ni chafodd yr un ohonynt eu marchnata yn unman fel meddyginiaethau dynol neu filfeddygol.(17). Nid yw'r grŵp hwn o opioidau yn strwythurol gysylltiedig â grwpiau cyffuriau opioid eraill, gan gynnwys morffin a fentanyl.

.

Maent yn weithredol iawn ar y cyfan, ac yn fwy cryf ac effeithlon na fentanyl.(18). Fodd bynnag, ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am eu heffeithiau mewn pobl.

Mae astudiaethau anifeiliaid wedi dangos ystod eang o ran cryfder ar gyfer y grŵp hwn o sylweddau, a all amrywio hefyd yn dibynnu ar y llwybr rhoi. Pan gafodd ei roi i lygod yn isgroenol, roedd cryfder yn amrywio o 1 (sy'n hafal i forffin) ar gyfer flunitazene i 1000 ar gyfer etonitazene.

Adroddwyd mai trefn cryfder cyfres o nitazenes oedd etonitazene >= isotonitazene > protonitazene >= metonitazene > butonitazene >= etodesnitazene >> 5-aminoisotonitazene = flunitazene > metodesnitazene.(19).

## Statws Cyfreithiol y Deyrnas Unedig

Ar 14 Mai 2024, ychwanegwyd 2-bensyl benzimidazole ('nitazenes'), eu hamrywiolynnau ac opioidau piperidine benzimidazolone ('tebyg i forffin') at y rhestr o gyffuriau Dosbarth A yn Neddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, sy'n gyson â dosbarthiad opioidau cryf eraill, a nitazenes eraill.

Gan nad oes gan y deunyddiau hyn unrhyw ddefnydd meddygol, argymhellir y dylid eu rhoi yn Atodlen 1 Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau 2001 (fel y'u diwygiwyd) a Gorchymyn Camddefnyddio Cyffuriau (Dynodi) (Cymru, Lloegr a'r Alban) 2015, Gogledd Iwerddon 2001.

## Nitazenes a gorddosau angheuol yn gysylltiedig â chyffuriau (y Deyrnas Unedig)

Ar 24 Mai 2024, datgelodd yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol fod cyffur peryglus newydd wedi'i gysylltu â bron i 176 o farwolaethau yn y DU(20).

17) ACMD report – A review of the evidence on the use and harms of 2-benzyl benzimidazole ('nitazene') and piperidine benzimidazolone ('brorphine-like') opioids; Gorffennaf 2022; https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1091152/ACMD_advice_on_2-benzyl_benzimidazole_and_piperidine_benzimidazolone_opioids.pdf [cyrchwyd 5 Mai 2023]
18) Vandeputte MM, Van Uytfanghe K, Layle NK, St Germaine DM, Iula DM, Stove CP. Synthesis, Chemical Characterization, and μ-Opioid Receptor Activity Assessment of the Emerging Group of "Nitazene" 2-Benzylbenzimidazole Synthetic Opioids. ACS Chem Neurosci. 2021 Ebrill 7;12(7):1241-1251. doi: 10.1021/acschemneuro.1c00064. Epub 2021 Mawrth 24. PMID: 33759494.
19) Bromig, G. About new powerful analgesics and their clinical trials. Klin Wochenschr 36, 960–963 (1958). https://doi.org/10.1007/BF01486702
20) David Cohen: Dangerous nitazene drugs linked to rise in deaths; BBC; 24 Mai 2024 {cyrchwyd 3 Mehefin 2024}

# Nitazenes

**Nalocson, yn sgil gorddos yn gysylltiedig â nitazene**

Mae diffyg ymchwil yn ymwneud â defnyddio nalocson ar gyfer trin gorddosau yn gysylltiedig â nitazen yn benodol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ei fod yn cael ei ddefnyddio i wrthdroi iselder anadlol sy'n bygwth bywyd a choma a achosir gan fetonitazene isgroenol (21).

Yn yr erthygl “What are Nitazines?”, mae'r Athro Ryan Marino o’r Adran Feddygaeth Frys a Seiciatreg yn Ysgol Feddygaeth Case Western, Cleveland yn nodi y dylai nalocson fod yn effeithiol wrth drin pobl sy'n dioddef o orddos yn gysylltiedig â nitazin, er efallai bod angen dosau uwch a mwy o ymchwil, ac nad oes tystiolaeth i awgrymu bod yr opioidau synthetig newydd yn gallu gwrthsefyll nalocson. Mae'r cwestiwn yn ymwneud â'r dos sydd ei angen a rhoi dos arall (22).

Mae TOXBASE a Gwasanaeth Gwybodaeth Gwenwynau Cenedlaethol y DU yn awgrymu defnyddio nalocson os yw claf wedi dod i gysylltiad ag unrhyw gyffur opioid ac yn datblygu iselder anadlol, rhwystr ar y llwybr anadlu neu chwydu ynghyd â diffyg ymwybyddiaeth.

**WEDINOS a nitazenes**

Derbyniodd WEDINOS y sampl gyntaf oedd, yn ôl gwaith proffilio gan y rhaglen, yn cynnwys nitazen ar 14 Ebrill 2021. Cafodd y sampl hon (cyfeirnod WEDINOS: W018254) ei chyflwyno fel powdwr gwyn a ddarganfuwyd o god post WF1, Wakefield. Roedd y sampl hon yn cynnwys metonitazene.

Ers hynny mae'r rhaglen wedi derbyn a dadansoddi 214 o samplau a gafodd eu nodi hefyd, yn ôl gwaith proffilio, yn rhai oedd yn cynnwys nitazen. Hyd yn hyn, mae WEDINOS wedi nodi wyth nitazene gwahanol mewn samplau a gyflwynwyd i'r rhaglen (cynnydd o bump y llynedd): butinitazene, etonitazepyne (N-pyrrolidino etonitazene), isotonitazene, metonitazene, protonitazene, protonitazepyne, N-desethylisotonitazerine a N-pyrrolidino protonitazene.

Mewn ymateb i’r farchnad gyffuriau anghyfreithlon sy’n datblygu’n gyflym a phryderon ynghylch nitazenes, mae WEDINOS wedi prynu safonau cyfeirio cyffuriau ar gyfer pob nitazen y mae’r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn cael gwybod amdano. Rydym hefyd wedi dilysu ein profion er mwyn gallu adnabod y sylweddau hyn yn gyflym ac yn hyderus os ydynt yn ymddangos yn ein cronfa samplu.

Yn ystod y cyfnod Ebrill 2023 i Fawrth 2024, cyflwynwyd 138 o samplau a gafodd eu nodi, ar ôl gwaith proffilio a dadansoddi, yn rhai oedd yn cynnwys nitazene. Mae hyn yn gynnydd o 36 y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, gan fod WEDINOS yn wasanaeth sy'n dewis ei hun ei hun, nid yw ein data yn ddangosydd o nifer yr achosion.


W032741
Date Received: 25 Apr 2023
Postcode: M11 -
Purchase Intent: Cannabis
Package Label: Not Stated
Sample Colour: Green
Sample Form: Plant Matter
Consumption Method: Not Stated
Self-Reported Effects: Not Stated
Sample Upon Analysis (Major): MDMB-4en-PINACA, ADB-4en-PINACA, ADB-BUTINACA
Sample Upon Analysis (Minor): Isotonitazene
Click to Enlarge

Cafodd mwyafrif yr achosion o nitazenes eu nodi mewn samplau a gyflwynwyd fel diazepam, sef 54 y cant (n=75), yn ôl gwaith proffilio. Yna heroin, sef 17 y cant (n=24) ac ocsicodone, sef 16 y cant (n=22). Dim ond pum sampl a gyflwynwyd lle nodwyd nitazen fel y bwriad prynu.

Cyflwynwyd samplau eraill lle nodwyd nitazenes fel: anhysbys, promethazine, canabis, flubromazolam, SCRA, temazepam a zopiclone

21) Bromig, G. About new powerful analgesics and their clinical trials. Klin Wochenschr 36, 960–963 (1958). https://doi.org/10.1007/BF01486702
22) Castaneda, R. What are Nitrazines? https://health.usnews.com/drugs/articles/nitazenes

# Nitazenes

Cyflwynwyd samplau yn cynnwys nitazenes o bob rhan o dir mawr Prydain.

Rhaid nodi bod nifer y samplau heroin a gyflwynwyd yn debygol o ganlyniad i bryder. Rhwng Rhagfyr 2023 a Chwefror 2024, roedd clystyrau o achosion o wenwyno angheuol a heb fod yn angheuol gan gyffuriau ymhlith pobl sy'n chwistrellu heroin yn ardaloedd Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent. Canfu profion cyflym ar sylweddau gan uned ymchwilio gwyddonol ar y cyd y lluoedd hynny fod nitasen yn bresennol. O ganlyniad i hyn, gweithiodd WEDINOS ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda'r arweinwyr a gwasanaethau lleihau niwed lleol i annog defnydd o'r system a rhoi blaenoriaeth o ran cael mynediad at brofion ar gyfer samplau a gyflwynwyd fel heroin. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiwrnod agored â'r cyfryngau a chanolbwyntiodd ar bryderon yn ymwneud ag opioidau synthetig cryf, yn enwedig nitazenes. Cafodd y daflen wybodaeth isod hefyd ei pharatoi a'i rhannu â rhanddeiliaid. Roedd hyn ochr yn ochr â chefnogi defnyddio a darparu nalocson, gan hefyd dynnu sylw at y ffaith, oherwydd cryfder anhysbys a hanner oes nitazenes, efallai y bydd angen mwy o nalocson na'r arfer.


WEDINOS Collecting • Testing • Informing

**Nitazenes within the heroin market**

Public Health Wales have been notified of four suspected fatal drug poisonings and several non-fatal drug poisoning events that have occurred in the Adamsdown/Roath area of Cardiff between 23rd December 2023 - 1st January 2024.

It was reported that the individuals concerned were believed to have injected heroin.

Whilst cause of death and post-mortem toxicology remain unconfirmed, South Wales Police forensic analysis of paraphernalia seized at scene of one of the incidents has detected the presence of metonitazene, monoacetylmorphine, cocaine, paracetamol, caffeine and benzocaine.



Since January 2023, WEDINOS received and analysed seven samples, five from England and two from Wales, in the belief, they were **heroin**, that were profiled following analysis as containing nitazene(s), (Jun 23=1, Sept 23=2, Nov 23=1, Dec 23=2, Jan 24=1).

Nitazenes identified were isotonitazene and metonitazene. With one sample containing an unconfirmed nitazene (the most recent sample received in January 2024 from Cardiff, Wales).

**Nitazenes** were originally developed in the 1950s as analgesics. Found to have potent analgesic effects, the clinical development of nitazenes was abandoned due to the increased risks of adverse events. Currently, there are no drugs of this class approved as human or veterinary medicines.

**Isotonitazene** has potent analgesic effects. In mice studies isotonitazene was found to be 500 times more potent that morphine. however, studies in rodents should be interpreted with caution as they do not accurately reflect opioid toxicity in humans.

**Metonitazene** was around 10 times more potent than morphine as an analgesic

The import, supply, possession with the intent to supply and possession in a custodial institution of isotonitazene and metonitazene are all offences under the Psychoactive Substances Act 2016

The Advisory Council for the Misuse of Drugs (ACMD) states individuals may be unaware of the inclusion of nitazenes, the high potency of some of these compounds provides a substantial risk of severe and potentially fatal overdose.

The ACMD report – A review of the evidence on the use and harms of 2-benzyl benzimidazole ('nitazene') and piperidine benzimidazolone ('brorphine-like') opioids can be found here: https://www.gov.uk/government/publications/acmd-advice-on-2-benzyl-benzimidazole-and-piperidine-benzimidazolone-opioids

**Clinical management of toxicity with nitazenes recommends the use of Naloxone as an antidote. Individuals using heroin, or those concerned in the care of individuals using heroin should speak to their local drug treatment service about Naloxone or visit DAN 24/7 and see their click and collect service (for those living in Wales)** https://dan247.org.uk/naloxone-click-and-deliver/

# THC / CBD neu feps Canabis

**Gweithyddion Derbynyddion Canabinoidau Synthetig (SCRAs) wedi'u nodi mewn cynhyrchion a brynwyd fel THC / CBD neu feps Canabis**

Rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, derbyniodd WEDINOS 211 o samplau a gyflwynwyd fel THC / CBD neu feps Canabis. O'r samplau hynny, roedd 41 y cant (n=86) yn cynnwys un Gweithydd Derbynnydd Canabinoidau Synthetig (SCRA) neu fwy.

Mae'r term 'canabinoidau synthetig' yn cwmpasu'r holl sylweddau synthetig sy'n rhwymo i un o'r ddau dderbynnydd canabinoid hysbys (CB1 neu CB2) (23).


Mae gan y rhan fwyaf o SCRAs gysylltiadau cryfach â'r derbynnydd CB1 na thetrahydrocannabinol (THC) ac maent yn weithyddion llawn yn y man hwn. O gymharu â hyn, mae THC yn gweithredu fel gweithydd rhannol(24).

Yn ei adroddiad yn 2014, dywedodd y Cyngor Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop *'that these substances can be extremely potent, but are not chemically similar to cannabis, and therefore may result in different and potentially more serious health consequences. Although our current understanding of the health implications of consuming these substances remains limited, there is increasing concern about reports of acute adverse consequences associated with their use'* (25).

Yn adroddiad blynyddol WEDINOS 2014-2015, trafodwyd rhai o'r niweidiau iechyd yn ymwneud â SCRAs y cafwyd tystiolaeth ohonynt, yn bennaf pryderon yn ymwneud â seicosis. Lle'r oedd unigolion yn ymgyflwyno â seicosis, nodweddion y digwyddiadau hyn oedd lledrithiau paranoiaidd, syniadau cyfeirio a chyflwr meddwl anhrefnus, dryslyd (26).

Mae hylifau fepio i'w defnyddio gyda dyfeisiau sy'n caniatáu i'r defnyddiwr fewnanadlu sylwedd ar ffurf anwedd yn hytrach na mwg. Maen nhw'n gweithio trwy gynhesu hylif sydd,(27), o ran canlyniadau WEDINOS, fel arfer yn cynnwys un neu gyfuniad o'r sylweddau canlynol: nicotin, cannabidiol (CBD), tetrahydrocannabinol (THC), canabinol (CBN) neu Weithyddion Derbynyddion Canabinoidau Synthetig (SCRAs)

Lle cafodd sylwedd ei enwi yn y bwriad prynu, roedd pob sampl yn gysylltiedig â chanabis, a naill ai wedi'i enwi'n THC (n=189), canabis (n=16) neu CBD (n=6).




**Siart 6: Y bwriad prynu (lle adroddwyd) ar gyfer samplau a gyflwynwyd fel hylifau fepio i WEDINOS 2023-2024**

23) Auwärter V., Dargan P., Wood D., Novel Psychoactive Substances, Pennod 13 - Synthetic Cannabinoid Receptor Agonists, Academic Press, 2013, Tudalennau 317-343, ISBN 9780124158160,https://doi.org/10.1016/B978-0-12-415816-0.00013-4.
24) adroddiad blynyddol WEDINOS 2013-2014, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Caerdydd, 2014; https://www.wedinos.org/resources/downloads/WN%20Annual%20Report%205012015.pdf {cyrchwyd 3 Mehefin 2024}
25) Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (2014), European Drug Report 2014: Trends and Developments, Swyddfa Cyhoeddiadau'r Undeb Ewropeaidd, Lwcsembwrg https://www.emcdda.europa.eu/publications/edr/trends-developments/2014_en {cyrchwyd 3 Mehefin 2024}
26) Abdulrahim D et al (Grŵp Arbenigol NEPTUNE).(2015). Guidance on the Management of Acute and Chronic Harms of Club Drugs and Novel Psychoactive Substances. Novel Psychoactive Treatment UK Network. Llundain, NEPTUNE
27) Using e-cigarettes to stop smoking-Quit smoking, NHS, https://www.nhs.uk/live-well/quit-smoking/using-e-cigarettes-to-stop-smoking/ {accessed 3rd June 2024}

# THC / CBD neu feps Canabis

**Gweithyddion Derbynyddion Canabinoidau Synthetig (SCRAs) wedi'u nodi mewn cynhyrchion a brynwyd fel THC / CBD neu feps Canabis**

Yr hyn sy'n peri pryder difrifol yw'r canfyddiad bod 41 y cant (n=86) o'r 211 o samplau a gyflwynwyd lle nodwyd y bwriad prynu yn cynnwys SCRAs.

Yn yr 86 o samplau hylif fepio y canfuwyd eu bod yn cynnwys SCRAs, nodwyd saith SCRA naill ai ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad: MDMB-4en-PINACA (n=56), ADB-BUTINACA (n=20), 4F-MDMB-BINACA (n=13), 5F-ADB (n=9), MDMB-BUTINACA (n=7), ADB-4en-PINACA (n=3) a 4F-MDMB-BUTINACA (n=1)

Roedd pum sampl yn cynnwys tri SCRA mewn cyfuniad.


W031411

Date Received: 07 Mar 2023

Postcode: CM13 -

Purchase Intent: THC vape oil

Package Label: Strawberry

Sample Colour: Red

Sample Form: Liquid

Consumption Method: Not Stated

Self-Reported Effects: Not Stated

Sample Upon Analysis (Major): MDMB-4en-PINACA

Sample Upon Analysis (Minor): 4F-MDMB-BINACA, ADB-4en-PINACA

Click to Enlarge

Roedd MDMB-4en-PINACA yn destun asesiad risg gan y Ganolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop ym mis Mawrth 2021. Gwybodaeth gyfyngedig sydd ar gael am briodweddau ffarmacolegol MDMB-4en-PINACA. Mae'n weithydd llawn y derbynnydd CB1, ac mae'n gryf iawn. "*Adverse effects from overdosing MDMB-4en-PINACA might include gastrointestinal (e.g. nausea and vomiting (including hyperemesis)), neurological (e.g. hallucination, seizures, convulsions, agitation, anxiety, paranoia, confusion, delusions, catatonia, lethargy, psychosis (including susceptible individuals) and severe central nervous system depression (such as rapid loss of consciousness/coma), cardiovascular (e.g. tachycardia, hypertension, acute myocardial infarction and sudden cardiac death) and renal (e.g. acute kidney failure) clinical features, and respiratory depression*".

O ran cymysgeddau ysmygu a hylifau fepio, mae MDMB-4en-PINACA a SCRAs eraill a ddefnyddir yn y modd hwn yn cael eu hamsugno'n gyflym i'r llif gwaed. O ganlyniad i hyn, a chryfder uchel yr SCRA hwn, mae'n anodd i unigolion reoli eu dos.